# TREFNIADAU HYSBYSEBU,
# LLUNIO RHESTRAU BYRION A PHENODI I SWYDDI

## Trefniadau Hysbysebu Swyddi

Mae Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn wedi cytuno i'r egwyddor y gall staff CYNNAL gael ymgeisio am swyddi mewnol a hysbysebir gan y ddau Gyngor. Yn yr un modd, mae gan staff y ddau Gyngor yr hawl i ymgeisio am swyddi mewnol a hysbysebir gan CYNNAL. Bydd yr hysbysebion ar gael ar hysbysfyrddau swyddfeydd y Cwmni.

### 1. SWYDDI GWEINYDDOL HYD AT UCHAFSWM CYFLOG SO2 (PWYNT 33)

Dirprwyir cyfrifoldeb am lunio rhestrau byrion i'r Prif Weithredwr neu ei gynrychiolydd.
Gwneir y penodiad gan y Prif Weithredwr neu ei gynrychiolydd.
Bydd y Swyddog Personél yn bresennol mewn rôl ymgynghorol, a gwahoddir y Rheolwr Llinell yn ôl y gofyn. Hawl pleidleisio gan y Prif Weithredwr (neu ei gynrychiolydd) yn unig.

### 2. SWYDDI GWEINYDDOL/RHEOLAETHOL PO (PWYNT 34 AC UWCH)

Dirprwyir cyfrifoldeb am lunio rhestrau byrion i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Llinell.
Gwneir y penodiad gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Personél a'r Prif Weithredwr. Bydd y Swyddog Personél yn bresennol mewn rôl ymgynghorol, a gwahoddir y Rheolwr Llinell yn ôl y gofyn.

### 3. SECONDIADAU

Dirprwyir cyfrifoldeb am lunio rhestrau byrion i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr Addysg a Hamdden Ynys Môn a Phennaeth Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd.
Gwneir y penodiad gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Personél a'r Prif Weithredwr. Bydd y Swyddog Personél yn bresennol mewn rôl ymgynghorol, a gwahoddir y Rheolwr Llinell yn ôl y gofyn.

### 4. SWYDDI UWCH YMGYNGHORWYR, YMGYNGHORWYR, ATHRAWON YMGYNGHOROL

Dirprwyir cyfrifoldeb am lunio rhestrau byrion i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr Addysg a Hamdden Ynys Môn a Phennaeth Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd.
Gwneir y penodiad gan Banel sy'n cynnwys aelodau etholedig yr Is-bwyllgor Personél, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden Ynys Môn, Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd a Phrif Weithredwr CYNNAL. Bydd hawl pleidleisio lawn gan bob aelod o'r Panel Penodi. Bydd y Swyddog Personél yn bresennol mewn rôl ymgynghorol, a gwahoddir y Rheolwr Llinell yn ôl y gofyn.

### 5. SWYDD PRIF WEITHREDWR

Llunir y rhestr fer a gwneir y penodiad gan yr aelodau etholedig sy'n gwasanaethu ar Bwyllgor Rheoli CYNNAL, ynghyd â Chyfarwyddwr Addysg a Hamdden Ynys Môn a Phennaeth Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd.